

## Trwydded yr Asiantaeth Recordio Addysgol (ERA) a recordio oddi ar yr awyr ar gyfer addysgu

Mae'r brifysgol yn talu am drwydded yr Asiantaeth Recordio Addysgol (ERA) sy'n caniatáu recordio rhaglenni radio a theledu a ddarllidir yn gyhoeddus at ddibenion addysgol anfasnachol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalen cwestiynau cyffredin ERA: <http://www.era.org.uk/the-licence/faq>

Gall holl ddarllediadau radio a theledu sydd wedi eu hamserlennu ac y gellir eu dangos am ddim, gael eu recordio o dan y drwydded ERA.

Gall fod cyfyngiadau ar rai gwasanaethau darlledu (fel gwasanaethau teledu y telir amdanynt) o ganlyniad i'r telerau ac amodau y mae tanysgrifwyr i wasanaethau o'r fath yn cytuno iddynt.

Mae gwasanaethau ar-alw, megis BBC iPlayer, ITV Player a S4C (ar alw) wedi eu cynnwys.

Ni ellir rhoi recordiadau i fyfyrwyr sydd wedi eu lleoli dramor ar hyn o bryd.

Os derbynir cais ymlaen llaw gan ddarlithydd, bydd [Eifion Owen](#) yn y Gwasanaethau TG yn recordio'r rhaglen.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddarlithwyr yn gofyn ymlaen llaw felly bydd rhaid cael copi.

Y ffordd hawsaf yw gwneud cais ar restr e-bost fel LIS-LINK. (Gall y llyfrgell wneud hyn.) Rydym yn debygol o allu derbyn ffeil MP4 drwy e-bost.

Ffordd arall yw chwilio'r gronfa ddata TRILT yn BUFVC (British Universities Film & Video Council)/Learning on Screen. Cysylltwch â [Paul Wood](#) yng Ngwasanaethau TG i gael cymorth.

Rydym yn ceisio cadw fersiwn digidol ar weinydd diogel a DVD i'w fenthyca. Cysylltwch â'r Llyfrgell.

Yn ddelfrydol hoffem gysylltu â'r fersiwn digidol o restr ddarllen.

Gellir gweld y gofynion ar gyfer yr hysbysiad sydd i'w roi ar ddechrau fideo a'r label ar y caead neu'r clawr ar dudalen cwestiynau cyffredin ERA.

Rhaid i'r label/hysbysiad gynnwys:

- Dyddiad (pan wnaed y recordiad)
- Enw'r darlledwr
- Teitl y rhaglen
- Y geiriau "Mae'r recordiad hwn i'w ddefnyddio'n unig at ddibenion addysgol ac anfasnachol dan delerau'r drwydded ERA".

Gellir gweld rhai enghreifftiau diweddar yn:

[https://www.bangor.ac.uk/library/all\\_users/digitised/2016-17/OSX-2000-1.mp4](https://www.bangor.ac.uk/library/all_users/digitised/2016-17/OSX-2000-1.mp4)

[https://www.bangor.ac.uk/library/all\\_users/digitised/2016-17/DXX-1005-1.mp4](https://www.bangor.ac.uk/library/all_users/digitised/2016-17/DXX-1005-1.mp4)

